**Telerau ac Amodau Ysgoloriaeth Ann Robertson ar gyfer Doethuriaeth**

1. **Cymhwystra**: Mae croeso i ymgeiswyr a gaiff eu hystyried yn dalwyr ffïoedd Cartref (Y DU) wneud cais am Ysgoloriaeth Ann Robertson ar gyfer Doethuriaeth.

I fod yn gymwys i gael ysgoloriaeth, rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gofrestru fel myfyrwyr uwchraddedig ar gyfer gradd doethur ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fel rheol, dylai ymgeiswyr naill ai fod wedi ennill neu fod yn disgwyl ennill o leiaf anrhydedd ail ddosbarth uwch yn eu gradd gyntaf. Gweler paragraff 5 isod hefyd.

2. **Preswylio**: Rhaid i ddeiliaid yr ysgoloriaeth gyflawni eu hymchwil a phreswylio yn Aberystwyth am o leiaf 44 wythnos mewn blwyddyn. Os yw deiliad yr ysgoloriaeth am dreulio cyfnod hir i ffwrdd o Aberystwyth (e.e. er mwyn cyflawni gwaith maes estynedig), rhaid cael caniatâd gan y Dirprwy Is-ganghellor priodol.

3. **Hyd y dyfarniad**: Cyhyd â bod Pwyllgorau Monitro Ymchwil adrannol a sefydliadol yn cadarnhau bob blwyddyn bod cynnydd yn foddhaol, caiff ysgoloriaethau eu dal fel rheol am gyfnod o hyd at dair blynedd, gan gychwyn ar ddechrau'r sesiwn yn dilyn y gystadleuaeth (h.y. ym mis Medi). Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a gyda chaniatâd Pennaeth Ysgol y Graddedigion y gellir gohirio dyfarniad. Ni fydd dyfarniadau'n parhau yn ystod pob sesiwn newydd oni wneir cynnydd boddhaol.

4. **Lefel y dyfarniad**: Bydd ffioedd dysgu Cartref (Y DU) yn cael eu talu a bydd dyfarniad ar gyfer cynhaliaeth yn cael ei gynnig, gan ystyried cyfraddau cyfredol Cynghorau Ymchwil y DU ar gyfer ysgoloriaethau. Fodd bynnag, ni fydd gwerth dyfarniadau Ysgoloriaeth Ann Robertson ar gyfer Doethuriaeth o reidrwydd yr un fath â gwerth dyfarniadau Cynghorau Ymchwil y DU. Bydd yna ffigur cyffredin ar gyfer pob myfyriwr llawn-amser sy'n cael dyfarniadau Ysgoloriaeth Ann Robertson. Caniateir i ddeiliaid yr ysgoloriaeth wneud cais am swm cyfyngedig o gymorth tuag at dalu costau gwaith maes, mynychu cynadleddau neu deithio at ddibenion eraill. Ni chaiff lwfansau ychwanegol eu darparu ar gyfer dibynyddion. Rhaid i gostau eraill ymchwil, er enghraifft costau arolygon drwy'r post neu nwyddau ar gyfer arbrofion, gael eu talu gan adran y myfyriwr.

5. **Dyfarniadau gan Gynghorau Ymchwil a dyfarniadau eraill**: Caiff pawb sy'n ymgeisio am Ysgoloriaeth Ann Robertson eu hannog yn daer hefyd i chwilio am ffynonellau eraill o gyllid, sy'n cynnwys dyfarniadau gan Gynghorau Ymchwil y DU (os ydynt yn berthnasol). Gall adrannau academaidd a'r Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion gynghori ymgeiswyr ynghylch yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr sy'n llwyddo wedyn i gael cyllid gan Gynghorau Ymchwil hysbysu'r Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion cyn gynted ag y bo modd, ac os yw'r cyllid hwnnw'n ysgoloriaeth lawn bydd yn rhaid iddynt roi'r gorau i Ysgoloriaeth Ann Robertson.

6. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr sy'n llwyddo i ennill Ysgoloriaeth Ann Robertson, ac sydd wedyn yn cael cynnig dyfarniadau gan Gynghorau Ymchwil y DU neu ddyfarniadau tebyg, roi'r gorau i Ysgoloriaeth Ann Robertson. Oni bai bod y Dirprwy Is-ganghellor priodol yn rhoi caniatâd fel arall, ni chaniateir i fyfyrwyr gael unrhyw ddyfarniadau eraill yn ystod y cyfnod y byddant yn cael Ysgoloriaeth Ann Robertson.

7. **Gwaith addysgu a gwaith arall gyda thâl**: O gael cymeradwyaeth eu Pennaeth Adran, caniateir i ddeiliad yr ysgoloriaeth gyflawni gwaith addysgu neu ddyletswyddau arddangos os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Caniateir i'r sawl sy'n cyflawni'r gwaith ychwanegol hwnnw o fewn y Brifysgol gael taliadau ychwanegol. Ni ddylai dyletswyddau o'r fath (sy'n cynnwys gwaith paratoi a gwaith asesu cysylltiedig) gymryd dros chwe awr yn ystod unrhyw un wythnos neu dros 180 awr yn ystod unrhyw un sesiwn academaidd (pa un bynnag sydd fwyaf) yn unol â chanllawiau Cynghorau Ymchwil y DU. Bydd yn ofynnol i ddeiliaid yr ysgoloriaeth sy'n cyflawni dyletswyddau addysgu fynychu pa gyrsiau bynnag y bydd Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn barnu eu bod yn briodol. Ar wahân i ddyletswyddau o'r fath, ni chaniateir i ddeiliaid yr ysgoloriaeth gyflawni unrhyw waith arall gyda thâl heb gael caniatâd yn gyntaf gan y Dirprwy Is-ganghellor priodol.

8. **Tynnu'n ôl dros dro ac yn barhaol**: Os bydd deiliaid yr ysgoloriaeth yn tynnu'n ôl yn barhaol o'r Brifysgol, bydd yn colli pob hawl i'w ysgoloriaeth ymchwil. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i ddeiliad dyfarniad sy'n tynnu'n ôl o'r Brifysgol ad-dalu'r gyfran o'r dyfarniad chwarterol ar gyfer cynhaliaeth y mae wedi'i chael yn barod yng nghyswllt gweddill y chwarter pan wnaeth dynnu'n ôl o'r Brifysgol. Ni ellir gwneud unrhyw daliadau pellach ar gyfer cynhaliaeth pan fydd unigolyn wedi tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Gyda chaniatâd Pennaeth Ysgol y Graddedigion, caniateir atal dyfarniadau myfyrwyr sy'n cael eu gorfodi i dynnu'n ôl o'u hastudiaethau dros dro, nes y byddant yn gallu ailgychwyn eu hastudiaethau.

9. **Amgylchiadau'n newid**: Mae pob myfyriwr yn gyfrifol am hysbysu'r Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion ar unwaith pan fydd eu hamgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd, e.e. os oes angen iddynt dynnu'n ôl dros dro neu os ydynt yn cael cyllid arall, sy'n effeithio ar eu hawl i gael ysgoloriaeth ymchwil. Gallai methu â gwneud hynny arwain at golli'r dyfarniad ac arwain at gamau i adennill yr arian a dalwyd.

10. Bydd y Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion yn anfon copi o'r Telerau a'r Amodau hyn at yr ymgeiswyr llwyddiannus. At hynny, dylai ymgeiswyr llwyddiannus nodi eu cyfrifoldebau am eu gwaith, a amlinellir yng Nghod Ymarfer y Brifysgol i Fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig ac mewn Rheolau a Rheoliadau. Ni fydd unrhyw delerau neu amodau eraill yn berthnasol.

11. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn cael gwybod bod myfyrwyr y dyfernir Ysgoloriaeth Ann Robertson iddynt yn fyfyrwyr uwchraddedig.

12. Gellir gofyn i ddeiliaid Ysgoloriaeth Ann Robertson lenwi holiaduron, cymryd rhan mewn ymchwil i'r farchnad neu gyfweliadau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymorth i recriwtio.

13. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i dynnu ysgoloriaeth yn ôl neu ddiwygio'r telerau sy'n berthnasol iddi. Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff y Brifysgol adennill unrhyw arian a dalwyd eisoes.

*Dylech nodi bod y Telerau a'r Amodau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol.*